

Amgueddfa Cymru



Paratoi ar gyfer Her Fer Dinasyddiaeth Fyd-eang

 **GWEITHGAREDDAU**

PARATOI EICH SAFBWYNT PERSONOL A'CH GWEITHGAREDD CODI YMWEYBYDDIAETH

Bydd y gweithgareddau hyn yn eich helpu i baratoi ar gyfer yr Her Fer. Maent wedi'u llunio i'w defnyddio gyda'r Pecyn Ffynonellau cysylltiedig.

Rydym yn eich herio i baratoi **Safbwynt Personol** a Gweithgaredd **Codi Ymwybyddiaeth** ar y pwnc **Ymfudo** a **Llafur Plant**.

Mae'n rhaid i'ch **Safbwynt Personol** gynnwys:

- Gwybodaeth am yr agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (**PESTLE**) ar y pwnc
- Eich barn bersonol am y pwnc **Ymfudo** a **Llafur Plant** gan wneud sylwadau am **hygredd** neu **ddibynadwyedd** y ffynonellau yr ydych yn cyfeirio atynt

YMCHWILIO I YMFUDO, LLAFUR PLANT A CHOPR

GWEITHGAREDD 1: DADANSODDI FFYNONELLAU

A. Ymchwilio i ffeithiau am Abertawe a'r Diwydiant Copr

1. Ffynhonnell Astudio 1. Pam fod llawer o bobl yn y 18fed ganrif yn meddwl bod llafur plant yn beth da?
2. Beth oedd y rhesymau dros gyflogi plant yn y diwydiannau glo, haearn a chopr yn y 1840au?
3. Pa dystiolaeth am effeithiau gwael llafur plant a adroddwyd gan y Comisiwn Brenhinol ar amodau mewn pyllau glo ym 1842?
4. Ffynhonnell Astudio 4. Beth oedd y gwahaniaeth rhwng tai'r gweithwyr a thai'r bobl a oedd yn berchen ar y gweithfeydd copr?
5. Beth oedd yn gwneud amodau gwaith y plant a gyflogwyd yn y diwydiant copr mor llym?
6. Ffynhonnell Astudio 2. Pam y daeth Abertawe yn ganolfan diwydiant copr y byd?
7. Ar gyfer beth y defnyddiwyd y copr a gynhyrchwyd yn Abertawe yn y 19eg ganrif?
8. Beth oedd y cysylltiad rhwng Cymru a llafur caethweision mewn rhannau eraill o'r byd?
9. Pam y dirywiodd y diwydiant copr tuag at ddiwedd y 19eg ganrif?
10. Ffynhonnell Astudio 7. Pam y gwnaeth pobl o'r diwydiant copr fudo ac i ble yr aethant?

GWEITHGAREDD 1

B. Ymchwilio i Ymfudo, Allfudo a'r Diwydiant Copr

1. Ffynhonnell Astudio 3. Lluniwch ddiagram syml i ddangos rhesymau pobl dros ymfudo o gefn gwlad Cymru i weithio yn y diwydiant copr yn ardal Abertawe. Labelwch bob rheswm fel un cymdeithasol neu economaidd
2. Ffynhonnell Astudio 5. Gwnewch restr o ddeg problem a wynebwyd gan ymfudwyr Gwyddelig a ddaeth i weithio yn y diwydiant copr yng Nghymru
3. Ffynhonnell Astudio 7. Byddwch yn gweld hysbyseb ar gyfer llong sy'n mynd â phobl sy'n allfudo o Gymru i UDA. Byddai hysbysebion modern yn gwneud llawer mwy i ddenu darpar fudwyr i fanteisio ar y cyfle
4. Crëwch boster hysbysebu mwy 'modern' ac apelgar er mwyn darbwylo allfudwyr i hwyllo o Gymru i'r Unol Daleithiau

C. Dadansoddi hygredd neu ddibynadwyedd ffynonellau

Byddwch yn gwybod o'ch gwersi hanes pa mor bwysig yw ystyried hygredd a dibynadwyedd ffynonellau. Rhaid i chi ddangos eich gallu i ddadansoddi ffynonellau'n effeithiol wrth gyflwyno eich Safbwynt Personol. Bydd y gweithgaredd hwn yn profi eich gallu i ddadansoddi ffynonellau.

Astudiwch yr adrannau yn Ffynhonnell 6 y Pecyn Ffynonellau sy'n dod o Adroddiad Mwyngloddiau 1842 ac sy'n trafod llafur plant yn y diwydiant copr

1. Pa dystiolaeth yn y ffynonellau hyn sy'n nodi bod plant yn gweithio oriau hir?
2. Pa dystiolaeth sy'n nodi bod yr amodau gwaith yn wael?
3. Pa dystiolaeth sy'n nodi bod y plant yn aml mewn damweiniau o dan ddaear?
4. Pa dystiolaeth sy'n egluro tlodi ymhlith teuluoedd sy'n gweithio yn y diwydiant copr?
5. Pa mor ddibynadwy yw dystiolaeth
 - (i) y plant yn y dyfyniadau 4 a 5
 - (ii) asiantau'r gweithfeydd copr yn y dyfyniadau 8 a 9
 - (iii) Mr W. P. Evans, llawfeddyg Gweithfeydd Copr Hafod yn nyfyniad 10

Gan ddefnyddio pob un o'r ffynonellau uchod, ac os dymunwch unrhyw ffynonellau eraill o Adroddiad Pyllau Glo 1842, atebwch y cwestiwn canlynol:

A yw Adroddiad Pyllau Glo 1842 yn profi bod y bobl a oedd yn gweithio yn y diwydiant copr yn ardal Abertawe yn y 19eg ganrif wedi byw bywydau caled ac wedi dioddef tlodi mawr?

GWEITHGAREDD 1

Defnyddiwch y tabl isod i'ch helpu i ddadansoddi'r ffynonellau hyn.

Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell?	Pa wybodaeth y gallwch ei chael o'r ffynhonnell hon? A yw'r wybodaeth hon yn fanwl neu'n gyfyngedig mewn unrhyw ffordd?
Pa resymau sydd dros gredu'r ffynhonnell?	Beth sy'n gwneud y ffynhonnell hon yn gredadwy ac yn ddibynadwy? A yw, er enghraifft, yn ddogfen swyddogol gan y llywodraeth, yn dystiolaeth uniongyrchol gan lygad-dyst, neu'n cyfateb i ffynonellau dibynadwy eraill?
A oes unrhyw resymau dros amau'r ffynhonnell?	A allai'r ffynhonnell neu rannau ohoni fod yn annibynadwy e.e. a allai fod yn anghywir, yn gelwydd, yn rhagfarnllyd, neu wedi'i gorliwio?

GWEITHGAREDD 2: DEALL A DEFNYDDIO PESTLE (COPR)

Bydd y gweithgaredd hwn yn eich helpu i ddysgu nodi agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol ac amgylcheddol (PESTLE) y mater hwn.

Astudiwch Ffynhonell 6 ar dlodi yn y diwydiant Copr. Cwblhewch y tabl isod gan nodi yn y golofn ar y dde enghreifftiau o unrhyw ffynonellau sy'n ymwneud â phob un o'r ffactorau PESTLE.

PESTLE	DIFFINIAD	ENGHREIFFTIAU O'R PECYN FFYNONELLAU
GWLEIDYDDOL	Barn a gweithredoedd llywodraethau a gwleidyddion	
ECONOMAIDD	Materion yn ymwneud â busnes, masnach, arian a chyllidebau teuluoedd	

GWEITHGAREDD 2

PESTLE	DIFFINIAD	ENGHREIFFTIAU O'R PECYN FFYNONELLAU
CYMDEITHASOL	Camau a chredoau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol mewn rhai cymunedau	
TECHNOLEGOL	Yr angen i ddefnyddio llafur plant oherwydd y dechnoleg, y peiriannau neu'r cyfarpar yn y gweithfeydd copr	
CYFREITHIOL	Cyfreithiau sy'n ymwneud â llafur plant a pha mor effeithiol oeddent	
AMGYLCHEDDOL	Effaith y diwydiant mwyngloddio ar yr amgylchedd	

YMFUDO A LLAFUR PLANT YN Y DIWYDIANT MWYNGLODDIO AUR

Yn y 19eg ganrif roedd pobl yn ymfudo o gefn gwlad Cymru i ardal Abertawe i ddod o hyd i waith yn y diwydiant copr. Roedd yr amodau byw a gwaith ar gyfer y bobl a oedd yn gweithio yn y diwydiant copr yn hynod llym ac roedd y mwyafrif o'r bobl a ymfudodd yn byw mewn tlodi. Nid oedd llawer o gyfreithiau i atal llafur plant ac roedd hyd yn oed y rhai a gyflwynwyd yn aneffeithiol.

Mae'n ddiddorol iawn cymharu sefyllfa ymfudwyr a llafur plant yn y diwydiant copr yn ardal Abertawe yn y 19eg ganrif gyda sefyllfa gwledydd sy'n mwyngloddio aur heddiw, fel Tanzania, Ghana, Burkino Faso a Pheriw.

GWEITHGAREDD 3: DEALL A DEFNYDDIO PESTLE (AUR)

Ymchwilio i ymfudwyr a llafur plant yn y diwydiant mwyngloddio aur modern.

Byddwch yn gwybod o'ch gwersi hanes pa mor bwysig yw ystyried hygreddedd a dibynadwyedd ffynonellau. Rhaid i chi ddangos eich gallu i ddadansoddi ffynonellau'n effeithiol wrth gyflwyno eich safbwynt personol. Bydd y gweithgaredd hwn yn profi eich gallu i ddadansoddi ffynonellau.

Astudiwch y ffynonellau yn y pecyn sy'n ymwneud â phlant yn gweithio yn y diwydiant mwyngloddio aur modern. Cwblhewch y tabl isod drwy ddod o hyd i o leiaf dair enghraifft o'r ffynonellau i ddangos pob agwedd ar y mater hwn.

MATER	FFYNHONNELL	TYSTIOLAETH DDEFNYDDIOL
Rhesymau dros lafur plant		
Oriau gwaith		

GWEITHGAREDD 3

MATER	FFYNHONNELL	TYSTIOLAETH DDEFNYDDIOL
Math o waith a wneir gan bobl ifanc		
Peryglon iechyd		
Effaith ar addysg		
Cyfreithiau aneffeithiol		

GWEITHGAREDD 4: DADANSODDI HYGREDEDD NEU DDIBYNADWYEDD FFYNONELLAU

Pa mor ddibynadwy yw adroddiad newyddion ar-lein NBC TV yn Ffynhonnell 3?

Defnyddiwch y tabl isod i'ch helpu i ddadansoddi'r ffynonellau hyn.

Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell?	Pa wybodaeth y gallwch ei chael o'r ffynhonnell hon? A yw'r wybodaeth hon yn fanwl neu'n gyfyngedig mewn unrhyw ffordd?
Pa resymau sydd dros gredu'r ffynhonnell?	Beth sy'n gwneud y ffynhonnell hon yn gredadwy ac yn ddibynadwy? A yw, er enghraifft, yn ddogfen swyddogol gan y llywodraeth, yn dystiolaeth uniongyrchol gan lygad-dyst, neu'n cyfateb i ffynonellau dibynadwy eraill?
A oes unrhyw resymau dros amau'r ffynhonnell?	A allai'r ffynhonnell neu rannau ohoni fod yn annibynadwy e.e. a allai fod yn anghywir, yn gelwydd, yn rhagfarnllyd, neu wedi'i gorliwio? A yw ffynonellau eraill yn anghytuno ac a yw'r rhain yn fwy dibynadwy?

GWEITHGAREDD 5: YSGRIFENNU SAFBWyNT PERSONOL

Paratowch safbwynt personol ar y pwnc tlodi a llafur plant yn y diwydiant glo (3–4 ochr A4). Gallwch gyfeirio at y wybodaeth neu'r ffynonellau yr ydych wedi'u hastudio.

Cofiwch gynnwys:

-
- Gwybodaeth am yr agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (**PESTLE**) ar y pwnc
 - Eich barn bersonol am **Dlodi, Ymfudo a Llafur Plant**
-



PRESSMASTER/SHUTTERSTOCK.COM

Cynllun posibl:

- Dechreuwch drwy gasglu tystiolaeth a gwneud nodiadau o'r ffynonellau:

Rhesymau pam y cyflogwyd plant yn y diwydiant mwyngloddio metel. Beth yw eich barn am hyn a phwy sydd ar fai?

Ffynhonnell	Dibynadwyedd (Pam ddylech chi ymddiried neu pam na ddylech chi ymddiried ynddi?)	Gwybodaeth neu ddyfyniadau defnyddiol

Amodau gwaith. Beth yw eich barn am hyn a phwy sydd ar fai?

Ffynhonnell	Dibynadwyedd (Pam ddylech chi ymddiried neu pam na ddylech chi ymddiried ynddi?)	Gwybodaeth neu ddyfyniadau defnyddiol

Amodau byw, peryglon i iechyd a'r amgylchedd. Beth yw eich barn am hyn a phwy sydd ar fai?

Ffynhonnell	Dibynadwyedd (Pam ddylech chi ymddiried neu pam na ddylech chi ymddiried ynddi?)	Gwybodaeth neu ddyfyniadau defnyddiol

Effaith deddfau yn erbyn llafur plant mewn gweithfeydd. Beth yw eich barn am hyn a phwy sydd ar fai?

Ffynhonnell	Dibynadwyedd (Pam ddylech chi ymddiried neu pam na ddylech chi ymddiried ynddi?)	Gwybodaeth neu ddyfyniadau defnyddiol

Beth ydych chi'n credu y dylid ei wneud ynglŷn â'r mater hwn heddiw?


GWEITHGAREDD 6: GWEITHGAREDD CODI YMWHYBYDDIAETH

Fel unigolyn neu fel tîm (sy'n cynnwys 3- 6 o aelodau), datblygwch weithgaredd ar gyfer eich cyfoedion i godi ymwybyddiaeth o ymfudo/tlodi gan ganolbwyntio ar lafur plant a'i roi ar waith.

Ar eich pen eich hun, cynhyrchwch **Becyn Codi Ymwybyddiaeth** a allai gynnwys tystiolaeth yn dangos:

- y broses o gynhyrchu a gwerthuso syniadau ar gyfer Codi Ymwybyddiaeth
- y broses o ddewis un syniad
- y broses o ddatblygu a rhoi'r syniad ar waith gan gynnwys technegau priodol i ddatrys problemau a gwneud penderfyniadau
- deunyddiau ac adnoddau i'w defnyddio yn y gweithgaredd Codi Ymwybyddiaeth

Bydd ymweld ag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn rhoi syniad rhagorol i chi o sut mae amgueddfeydd yn codi ymwybyddiaeth drwy eu defnydd o adnoddau a'r ffordd y maent yn cyflwyno hanes.





HER FER DINASYDDIAETH FYD-EANG AMGUEDDFA CYMRU

Eich her yw ymchwilio i'r pwnc **Tlodi** a **Llafur Plant** yn y byd modern.

Wrth baratoi ar gyfer yr Her Fer hon rydych wedi astudio ffynonellau ac wedi ymweld ag amgueddfeydd sydd wedi rhoi dealltwriaeth dda i chi o'r pwnc cyflogi plant yn y diwydiant glo.

Rydych nawr yn barod i gwblhau Her Fer Dinasyddiaeth Fyd-eang Amgueddfa Cymru drwy ymchwilio i'r mater mewn amrywiaeth o ddiwydiannau a gwledydd eraill yn y byd modern.